ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Meysydd data anghenion dysgu ychwanegol (ADY): Canllawiau ar gyfer CYBLD, y Cyfrifiad AHY a CBGY 2026 i 2027



## Canllawiau

Dogfen ganllaw rhif: 309/2026
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 ISBN Digidol 978-1-80853-248-1 WG55179

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 3

**Adolygu hysbysiadau preifatrwydd** 4

**CYBLD, y Cyfrifiad AHY a CBGY** 5

**Meysydd data: CYBLD a’r Cyfrifiad AHY** 6

Cynllun cymorth ADY 6

Diben y maes data 6

Sut i lenwi'r maes data 6

Canlyniad penderfyniad ADY 7

Diben y maes data 7

Sut i lenwi'r maes data 7

Maes data a ailadroddir ar gyfer mwy nag un penderfyniad 7

Enghreifftiau 8

Corff penderfynu ADY 8

Diben y maes data 8

Sut i lenwi'r maes data 8

Maes a ailadroddir ar gyfer mwy nag un penderfyniad 9

Maes angen ADY 9

Diben y maes data 9

Sut i lenwi'r maes data 9

Darpariaeth ADY a sicrhawyd gan fwrdd iechyd lleol 10

Diben y maes data 10

Sut i lenwi'r maes data 10

Enghraifft 11

Dyddiad adolygu CDU 11

Diben y maes data 11

Sut i lenwi'r maes data 11

Enghreifftiau 12

Canolfan adnoddau arbenigol awdurdod lleol 12

Diben y maes data 12

Sut i lenwi'r maes data 12

Enghreifftiau 12

**Meysydd data: CBGY** 14

Uwch dîm arweinyddiaeth 14

Diben y maes data 14
Sut i lenwi'r maes data 14
Rolau CADY 14
Diben y maes data 14
Sut i lenwi'r maes data 14
**Manylion cyswllt** **15**

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau yn nodi newidiadau i ddata anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a gaiff eu cyflwyno i systemau gwybodaeth reoli (MIS) a chasgliadau data statudol addysg o fis Medi 2026 ymlaen.

Mae'r canllawiau yn egluro sut y dylid llenwi'r meysydd data ADY diwygiedig a'r rhai newydd ac maent yn cynnwys enghreifftiau i gefnogi dehongli a chofnodi cyson. Byddant yn cyd-fynd â nodiadau cwblhau technegol presennol y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), nodiadau cwblhau technegol y Cyfrifiad Derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a nodiadau cwblhau technegol y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY).

Mae'r newidiadau'n mireinio meysydd data presennol ac yn cyflwyno nifer bach o ychwanegiadau wedi'u targedu i sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael i ysgolion a gynhelir a lleoliadau nad ydynt yn ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r system ADY.

Bydd y newidiadau yn cefnogi darlun cliriach a mwy cyson o ddysgwyr ag ADY ar lefel leol a chenedlaethol. Dros amser, bydd y data:

- yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth
- yn cefnogi cynllunio, hunanwerthuso, gweithgarwch gwella a gwneud penderfyniadau ar draws y system ADY
- yn cefnogi dadansoddi o un flwyddyn i'r llall a dealltwriaeth o sut mae'r system ADY yn gweithredu

Mae'r newidiadau yn cael eu llywio gan ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gryfhau data ADY mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nad ydynt yn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried adroddiad Archwilio Cymru ar y system ADY, a'r angen i gydbwyso tystiolaeth well â gofynion clir, cymesur y mae modd eu rheoli ar gyfer y gweithlu. Dangosodd y crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru gefnogaeth eang, gan dynnu sylw at faterion ynghylch eglurder, hyfywedd a llwyth gwaith.

Mae'r canllawiau wedi'u datblygu gyda mewnbwn gan gynrychiolwyr o'r sector, gan gynnwys cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY), swyddogion ADY a data awdurdodau lleol, a chyflenwyr MIS i sicrhau eu bod:

- yn glir ac yn ymarferol
- yn adlewyrchu sut mae prosesau ADY yn gweithredu yn ymarferol
- yn cefnogi gwaith cofnodi data ADY cyson ledled Cymru

Pan fo’r canllawiau yn dweud 'rhiant', mae hyn yn cynnwys unrhyw berson nad yw’n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson sydd â dyletswydd gofal dros blentyn.

## Adolygu hysbysiadau preifatrwydd

Fel rhan o'r gweithredu, dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ystyried a oes angen adolygu hysbysiadau preifatrwydd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gywir ac yn berthnasol yng ngoleuni'r meysydd data newydd.

Dylai hysbysiadau preifatrwydd:

- egluro'n glir pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu
- egluro sut mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio a'i rhannu
- cyd-fynd â chanllawiau preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar reoli gwybodaeth a chasglu data statudol

## CYBLD, y Cyfrifiad AHY a CBGY

Mae'r tabl isod yn manylu ar feysydd data newydd neu ddiwygiedig sydd i'w cynnwys yn systemau MIS ysgolion o fis Medi 2026 ac yn rhan o gasgliadau data statudol o fis Tachwedd 2026 (CBGY (y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion)) a mis Ionawr 2027 (CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) a'r Cyfrifiad AHY (Derbyn addysg heblaw yn yr ysgol)).

| Maes data | Disgrifydd | Newid statws |
|---|---|---|
| Cynllun cymorth ADY | I nodi'r math o gynllun cymorth sydd gan ddysgwr. (Dyma'r unig faes y dylid ei gofnodi ar gyfer dysgwyr a chanddynt gynllun addysg, iechyd a gofal (AIG). Bydd pob maes ADY arall yn cael ei gyflwyno fel cofnod nwl.) | Maes sy’n bodoli eisoes – cynllun AIG wedi'i ychwanegu fel opsiwn ymateb. |
| Canlyniad penderfyniad ADY | I nodi a yw ysgol neu awdurdod lleol wedi rhoi naill ai gynllun datblygu unigol (CDU) neu hysbysiad o ddim ADY ar gyfer dysgwr penodol ers y tro diwethaf i'r data gael eu casglu. | Maes newydd yn y Cyfrifiad AHY a CYBLD. |
| Corff penderfynu ADY | I bennu pa gorff a ddyroddodd y CDU neu'r hysbysiad o ddim ADY (yn dibynnu ar yr ymateb i'r maes uchod). | Maes newydd yn y Cyfrifiad AHY a CYBLD. |
| Maes angen ADY | I nodi pa faes/meysydd angen sydd gan ddysgwr â CDU. | Maes newydd yn y Cyfrifiad AHY a CYBLD. |
| Darpariaeth ADY gan fwrdd iechyd lleol | I nodi a oes unrhyw ran o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) ar gyfer dysgwr ag ADY wedi'i sicrhau gan fwrdd iechyd lleol neu un o gyrff y GIG (fel y nodir yn adran 2C o'r CDU). | Maes newydd yn y Cyfrifiad AHY a CYBLD. |
| Dyddiad adolygu CDU | I gofnodi'r dyddiad diweddaraf yr adolygwyd CDU y dysgwr. | Maes newydd yn y Cyfrifiad AHY a CYBLD. |
| Canolfan adnoddau arbenigol awdurdod lleol | I nodi nifer y canolfannau adnoddau arbenigol gan awdurdod lleol mewn ysgol. | Maes sydd eisoes yn bodoli yn y CYBLD – wedi'i ailenwi er eglurder. |
| Uwch dîm arweinyddiaeth | I gofnodi a yw'r CADY yn rhan o uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol – mae'r maes hwn i'w lenwi ar gyfer holl rolau’r staff (nid CADY yn unig). | Maes newydd yn CBGY. |

# Meysydd data: CYBLD a’r Cyfrifiad AHY

Mae'r meysydd data canlynol sy'n ymwneud ag ADY yn y CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) a’r Cyfrifiad AHY (Derbyn addysg heblaw yn yr ysgol).

## Cynllun cymorth ADY

Statws: Yn disodli'r hen faes data <Darpariaeth AAA>
Casgliadau: CYBLD, Cyfrifiad AHY

### Diben y maes data

Mae'r maes hwn yn cofnodi a oes gan ddysgwr gynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan ysgol ynteu CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. Mae CDUau yn gynlluniau statudol a gaiff eu creu o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac fe'u cynhelir naill ai gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

Mae'n faes sydd eisoes yn bodoli ond sydd wedi'i ddiweddaru i gofnodi opsiwn ymateb ychwanegol: Cynllun addysg, iechyd a gofal (AIG). Cynllun AIG yw'r cynllun statudol, a wneir o fewn adran 37(2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn Lloegr sydd angen mwy o gymorth nag sydd ar gael drwy gymorth anghenion addysgol arbennig.

O dan y system ADY, efallai y bydd amgylchiadau cyfyngedig lle mae dysgwr sy'n byw yn Lloegr ac sydd â chynllun AIG o dan y system Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND) yn Lloegr, a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr, yn mynychu ysgol yng Nghymru. Yn yr achosion hyn, bydd y cynllun AIG yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol yn Lloegr ond bydd yr ysgol yng Nghymru yn cymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol hwnnw i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig a bennir yn y cynllun AIG. Dylid dewis yr opsiwn ymateb 'cynllun AIG' dim ond i gofnodi dysgwyr y mae hyn yn berthnasol iddynt.

Mae'r opsiwn ymateb ychwanegol hwn:

- yn galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gofnodi'r wybodaeth hon mewn ffordd gyson
- yn cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth yn effeithiol
- yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ddarlun cywir o ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion yng Nghymru y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) neu ddarpariaeth addysgol arbennig arnynt

### Sut i lenwi'r maes data

Mae'r maes hwn yn orfodol i bob dysgwr. Ar gyfer pob dysgwr, dewiswch 1 o'r ymatebion canlynol:

- CDU a gynhelir gan yr ysgol
- CDU a gynhelir gan awdurdod lleol
- Cynllun AIG (rhaid i'r dysgwr fyw yn Lloegr a mynd i'r ysgol yng Nghymru)
- Dim cynllun cymorth

Nodyn: Nid yw'r maes hwn yn cofnodi cynlluniau gofal iechyd unigol.

## Canlyniad penderfyniad ADY

Statws: Maes data newydd
Casgliadau: CYBLD, Cyfrifiad AHY

### Diben y maes data

Bwriad y maes hwn yw cynnig darlun eglur i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion o faint o benderfyniadau ADY y mae'r gweithlu yn eu gwneud (sy'n cymryd amser ac adnoddau). Rhaid llenwi'r maes hwn ar gyfer pob dysgwr, ni waeth a oes gan y dysgwr ADY ai peidio.

Mae'r maes hwn yn cofnodi a roddwyd (dyroddwyd), ers y casgliad data statudol diwethaf, naill ai CDU neu hysbysiad o ddim ADY i ddysgwr, yn dilyn penderfyniad ADY.

Bydd yr wybodaeth:
- yn cefnogi cynllunio adnoddau
- yn helpu i adnabod tueddiadau
- yn gwella dealltwriaeth o ganlyniadau i ddysgwyr y pennwyd nad oes ganddynt ADY

Mae'r maes hwn yn edrych ar y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau newydd am ADY. Mae gwybodaeth am nifer y dysgwyr ag ADY yn cael ei chasglu yn y maes data 'cynllun cymorth ADY'.

### Sut i lenwi'r maes data

Mae'r maes hwn yn berthnasol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi cael penderfyniad a chanlyniad ADY ers y casgliad statudol diwethaf.

Caiff y maes ei gofnodi fel 'Dim canlyniad penderfyniad ADY' yn ddiofyn i bob dysgwr.

Os yw dysgwr wedi cael penderfyniad ynghylch ADY ers y casgliad statudol diwethaf, dylech ddiweddaru'r maes i gofnodi 1 o'r ymatebion canlynol:
- CDU wedi'i roi: dewiswch yr opsiwn hwn pan fo penderfyniad ynghylch ADY wedi'i wneud (ers y casgliad statudol diwethaf) a bod CDU wedi'i baratoi a'i roi i'r dysgwr neu ei riant. (Yn unol â'r Cod ADY, ystyrir bod CDU wedi'i roi pan fydd y broses o baratoi CDU wedi cael ei chwblhau, gan gynnwys ystyried unrhyw sylwadau neu bryderon gan y dysgwr neu ei riant am CDU drafft)
- Hysbysiad o ddim ADY wedi'i roi: dewiswch yr opsiwn hwn pan fo penderfyniad ynghylch ADY wedi'i wneud (ers y casgliad data statudol diwethaf) yn pennu nad oes gan ddysgwr ADY a bod y dysgwr a'i riant wedi cael gwybod am y penderfyniad hwnnw

Os yw'r broses ar gyfer penderfynu ynghylch ADY yn mynd rhagddi ar gyfer dysgwr adeg y casgliad data statudol, dylai'r ymateb gael ei gofnodi fel 'Dim canlyniad penderfyniad ADY' gan nad oes CDU na hysbysiad o ddim ADY wedi'i ddyroddi i'r dysgwr a'i riant eto.

### Maes data a ailadroddir ar gyfer mwy nag un penderfyniad

Dylid cwblhau'r maes hwn os oes mwy nag un canlyniad i'r penderfyniad ADY wedi'i roi (dyroddi) ers y casgliad statudol diwethaf.

**Enghreifftiau**

- Ni ddygwyd i sylw'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn y flwyddyn ddiwethaf y gallai fod gan y dysgwr ADY ac felly nid yw'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan ddysgwr ADY yn berthnasol. O dan yr amgylchiadau hyn, dewiswch 'Dim canlyniad penderfyniad ADY'.
- Mae gan ddysgwr CDU a roddwyd i ddechrau 3 blynedd yn ôl ac mae'n parhau i gael ei adolygu'n flynyddol. Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn ei lle, a does dim penderfyniad newydd ynghylch a oes gan y dysgwr ADY wedi bod yn ofynnol ers y casgliad statudol diwethaf. Gan fod y maes hwn yn cofnodi penderfyniadau ADY newydd a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, yn hytrach na nifer y dysgwyr ag ADY, dewiswch 'Dim canlyniad penderfyniad ADY'.
- Ers y casgliad statudol diwethaf, mae rhiant wedi cysylltu â'r ysgol gan ei fod yn meddwl y gallai fod gan ei blentyn ADY. Mae'r ysgol wrthi'n ystyried anghenion y dysgwr, gan ymgynghori ag athrawon dosbarth, y rhiant neu'r rhieni, a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill. Ar adeg y casgliad data, nid oes CDU wedi'i ddyroddi, er ei bod yn bosibl y bydd un yn cael ei ddyroddi'n fuan. Ar gyfer y dysgwr hwn, dewiswch yr opsiwn 'Dim canlyniad penderfyniad ADY' gan nad yw'r CDU neu'r hysbysiad o ddim ADY wedi'i ddyroddi eto. Bydd y canlyniad yn cael ei gofnodi yng nghasgliad statudol y flwyddyn ganlynol.
- Ers y casgliad data statudol diwethaf, nododd athro dosbarth y gallai fod gan ddysgwr ADY. Yn dilyn adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, penderfynodd yr ysgol nad oedd gan y dysgwr ADY, gan hysbysu'r dysgwr a'r rhiant neu'r rhieni o'r penderfyniad hwn. O dan yr amgylchiadau hyn, dewiswch 'Hysbysiad o ddim ADY wedi'i roi'
- Ers y casgliad statudol diwethaf, cysylltodd rhiant â'r ysgol gan ei fod yn meddwl y gallai fod gan ei blentyn ADY. Yn dilyn adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, penderfynodd yr ysgol nad oedd gan y dysgwr ADY a hysbysodd y dysgwr a'i riant neu rieni o'r penderfyniad. Daeth gwybodaeth newydd am y dysgwr i law 6 mis yn ddiweddarach. Yn dilyn ystyried yr wybodaeth newydd ac adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, penderfynodd yr ysgol fod gan y dysgwr ADY a rhoddodd CDU i'r dysgwr. O dan yr amgylchiadau hyn, dewiswch 'Hysbysiad o ddim ADY wedi'i roi', yna yn y maes a ailadroddir, dewiswch 'CDU wedi'i roi'.

## Corff penderfynu ADY

Statws: Maes data newydd
Casgliadau: CYBLD, Cyfrifiad AHY

### Diben y maes data

Mae'r maes hwn yn cofnodi pa gorff a ddyroddodd y CDU neu'r hysbysiad o ddim ADY. Bydd yn cynnig darlun eglur o ble mae penderfyniadau am ADY yn cael eu gwneud ar draws y system. Bydd hyn yn cefnogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i ddeall pwy sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn gan helpu â chynllunio adnoddau ar gyfer y dyfodol.

### Sut i lenwi'r maes data

Dylid llenwi'r maes hwn ar gyfer pob dysgwr os, yn dilyn penderfyniad newydd ynghylch ADY, oes CDU wedi'i ddyroddi neu hysbysiad o ddim ADY wedi'i roi ers y casgliad data statudol diwethaf. Pan fo mwy nag un penderfyniad wedi'i wneud a bod CDUau neu hysbysiadau o ddim ADY wedi'u dyroddi i ddysgwr, dylech gofnodi'r corff a roddodd bob CDU neu hysbysiad.

Ar gyfer pob cofnod, dewiswch 1 o'r ymatebion canlynol:

- Ysgol
- Awdurdod lleol
- Ailystyriaeth gan awdurdod lleol
- Amherthnasol: mae hwn yn cael ei lenwi'n awtomatig pan na fo dysgwr wedi cael CDU neu hysbysiad o ddim ADY ers y casgliad data statudol diwethaf

### Maes a ailadroddir ar gyfer mwy nag un penderfyniad

Mae angen llenwi'r maes hwn i gofnodi'r corff a ddyroddodd bob penderfyniad ADY ers y casgliad data statudol diwethaf.

## Maes angen ADY

Statws: Maes data newydd
Casgliadau: CYBLD, Cyfrifiad AHY

### Diben y maes data

Bydd yr wybodaeth a gofnodir yn y maes hwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i wneud y canlynol:

- deall anghenion dysgwyr yn well
- nodi tueddiadau
- cynllunio darpariaeth yn unol â hynny

Mae'r opsiynau ymateb yn cyd-fynd â'r 4 maes angen a ddisgrifir yn y Cod ADY (Cyfathrebu a rhyngweithio; Gwybyddiaeth a dysgu; Ymddygiad, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol; Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol).

### Sut i lenwi'r maes data

Rhaid i chi ddewis 1 neu ragor o opsiynau i nodi pa faes neu feysydd angen sy'n berthnasol i ddysgwyr â CDU. (Disgwylir i'r opsiynau hyn gael eu cyflwyno fel cwymplenni neu feysydd y gellir dewis ohonynt o fewn systemau MIS, er y bydd yr union ymddangosiad ac ymarferoldeb yn amrywio rhwng cyflenwyr). Dylech gofnodi'r holl feysydd angen perthnasol (un neu ragor) i ddarparu adlewyrchiad cywir o anghenion y dysgwr.

Ar gyfer pob dysgwr â CDU, dewiswch yr holl opsiynau perthnasol:

- Cyfathrebu a rhyngweithio
- Gwybyddiaeth a dysgu
- Ymddygiad, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol
- Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol
- Amherthnasol: mae hwn yn cael ei lenwi'n awtomatig os dewisir 'Dim cynllun cymorth' o dan y maes angen

Mae'r 'Meysydd angen', fel y'u diffinnir yn y Cod ADY, wedi'u cynnwys isod er gwybodaeth.

- *"Cyfathrebu a rhyngweithio: Gall rhai plant a phobl ifanc brofi anhawster mewn un agwedd, rhai agweddau neu bob agwedd ar leferydd, iaith a chyfathrebu. Gall y maes angen hwn gynnwys plant a phobl ifanc sydd ag oediad, amhariadau neu anhwylderau lleferydd ac iaith, anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia a dyspracsia, amhariad ar y clyw a'r rheini sy'n dangos nodweddion o fewn y sbectrwm awtistig; gall hefyd gwmpasu rhai plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys. Bydd ystod yr angen yn cynnwys y rhai y mae anawsterau iaith a chyfathrebu yn deillio o amhariad synhwyraidd neu gorfforol parhaol."*
- *"Gwybyddiaeth a dysgu: Gall rhai plant a phobl ifanc sy'n dangos nodweddion o anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys, neu anawsterau dysgu penodol, megis dyslecsia a dyspracsia fod angen rhaglenni penodol i gynorthwyo eu cynnydd mewn gwybyddiaeth a dysgu. Efallai y bydd gan rai o'r plant a'r bobl ifanc hyn anawsterau synhwyraidd, corfforol ac ymddygiadol sy'n gysylltiedig."*
- *"Ymddygiad, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol: Bydd rhai plant a phobl ifanc yn dangos nodweddion anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Efallai y byddant wedi mynd i'w cragen neu ymbellhau; gallant fod yn aflonyddgar ac yn annifyr, yn orfywiog neu gael trafferth canolbwyntio; efallai na fydd eu sgiliau cymdeithasol wedi datblygu'n llawn; neu efallai y byddant yn ymddwyn yn heriol."*
- *"Anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol: Mae'r maes angen hwn yn cynnwys yr ystod eang o anawsterau synhwyraidd, amlsynhwyraidd a chorfforol. Mae'r ystod synhwyraidd yn ymestyn o fyddardod neu amhariad ar y golwg dwys a pharhaol drwodd i lefelau llai o golled, a all fod yn rhai dros dro yn unig. Gall amhariadau corfforol ddeillio o achosion corfforol, niwrolegol neu fetabolaidd sydd ond angen mynediad priodol at gyfleusterau ac offer addysgol; gall eraill arwain at anghenion dysgu a chymdeithasol mwy cymhleth; bydd gan rai plant a phobl ifanc anawsterau aml-synhwyraidd, rhai ohonynt ag anawsterau corfforol cysylltiedig."*

## Darpariaeth ADY a sicrhawyd gan fwrdd iechyd lleol

Statws: Maes data newydd
Casgliadau: CYBLD, Cyfrifiad AHY

### Diben y maes data

Mae'r maes hwn yn cofnodi a oes unrhyw ran o'r DDdY ar gyfer dysgwr ag ADY wedi'i sicrhau gan fwrdd iechyd lleol neu un o gyrff y GIG (fel y nodir yn adran 2C o'r CDU).

Bydd yr wybodaeth hon yn darparu tystiolaeth feintiol ynghylch i ba raddau y mae byrddau iechyd lleol neu gyrff y GIG yn ymwneud â sicrhau DDdY i ddysgwyr ag ADY. Bydd hefyd yn helpu i feithrin dealltwriaeth o rôl gwasanaethau iechyd o fewn y system ADY ar lefel leol a chenedlaethol.

### Sut i lenwi'r maes data

Dylid llenwi'r maes hwn ar gyfer pob dysgwr â CDU. Bydd yn dangos a yw'r bwrdd iechyd lleol yn gyfrifol am sicrhau unrhyw ran o DDdY y dysgwyr (fel y cofnodir yn adran 2C o'r CDU).

Dewiswch 1 o'r ymatebion canlynol:
- Gwir (Ydi): pan fo'r ddarpariaeth yn cael ei sicrhau gan fwrdd iechyd lleol neu un o gyrff y GIG a'i chofnodi yn adran 2C o CDU dysgwr.
- Anwir (Nac ydi): pan na fo'r CDU yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sydd wedi cael ei sicrhau gan fwrdd iechyd lleol neu un o gyrff y GIG.

### Enghraifft

- Mae angen therapi galwedigaethol ar ddysgwr ag ADY i gefnogi datblygiad sgiliau motor manwl. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei sicrhau a'i darparu gan y bwrdd iechyd lleol. Yn yr achos hwn, dylech ddewis Gwir.

## Dyddiad adolygu CDU

Statws: Maes data newydd
Casgliadau: CYBLD, Cyfrifiad AHY

### Diben y maes data

Mae'r fframwaith ADY yn ei gwneud yn ofynnol i CDU gael ei adolygu o fewn 12 mis o'r adeg y cafodd y CDU ei baratoi, ei ddiwygio neu y gwnaed penderfyniad i beidio â'i ddiwygio. Mae'r amserlen statudol hon:
- yn diogelu hawliau dysgwyr
- yn sicrhau cymorth amserol a pherthnasol
- yn hyrwyddo system deg, dryloyw ac atebol

Bydd casglu gwybodaeth yn gyson yn cefnogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod y system yn gweithio'n deg ac yn effeithiol.

Rydym yn cydnabod yr amser a'r ymdrech sy'n gysylltiedig â chynnal ac adolygu CDU. Bydd casglu'r data hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall yn well sut mae'r ddyletswydd adolygu yn cael ei gweithredu yn ymarferol.

### Sut i lenwi'r maes data

Dylid llenwi'r maes hwn ar gyfer pob dysgwr â CDU. Mae'r maes hwn yn gofyn am y dyddiad y cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf.

Yn y maes ymateb rhowch y dyddiad ar gyfer yr adolygiad diweddaraf fel a ganlyn:
- Ar ôl adolygiad, y dyddiad y rhoddwyd copi o'r CDU diwygiedig gyntaf i'r dysgwr a'i riant.
- Os penderfynir yn ystod yr adolygiad na ddylid diwygio'r CDU, y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o'r penderfyniad i beidio â diwygio i ddysgwr a'i riant.
- Os dyroddwyd y CDU yn ystod y 12 mis diwethaf, ac nad oes adolygiad wedi'i gynnal eto, y dyddiad y cafodd copi o'r CDU ei baratoi gyntaf a'i roi i'r dysgwr a'i riant.

### Enghreifftiau

- Mae gan ddysgwr CDU a gynhelir gan ysgol. Mae'r ysgol yn trefnu adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o'r CDU a chytunir ar rai diwygiadau i DDdY y dysgwr. Caiff y CDU ei ddiweddaru yn unol â hynny a'i roi i'r dysgwr a'i riant. Yn yr achos hwn, dylid cofnodi'r dyddiad y rhoddwyd y CDU diwygiedig.
- Mae gan ddysgwr CDU a gynhelir gan ysgol. Mae'r ysgol yn trefnu adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o'r CDU ac yn penderfynu nad oes angen ei ddiwygio. Mae'r ysgol yn rhoi hysbysiad o'r penderfyniad na ddylid diwygio'r CDU i'r dysgwr a'i riant. Yn yr achos hwn, dylid cofnodi'r dyddiad y rhoddwyd hysbysiad o'r penderfyniad i beidio â diwygio'r CDU.
- Mae dysgwr ag ADY yn ymuno ag ysgol gyda CDU a ddyroddwyd gan ysgol flaenorol y dysgwr. Nid yw'r ysgol bresennol wedi cynnal adolygiad o'r CDU gan ei fod wedi'i roi lai na blwyddyn yn ôl. Dylid cofnodi'r dyddiad y rhoddwyd (dyroddwyd) y CDU a baratowyd gyntaf gan yr ysgol flaenorol.
- Mae gan ddysgwr sy'n derbyn gofal CDU a gynhelir gan ei awdurdod lleol. Mae'r dysgwr wedi cael y CDU ers sawl blwyddyn ac mae wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol yn unol â'r Cod ADY. Yn yr adolygiad diweddaraf a gynhaliwyd o fewn y 12 mis blaenorol, gwnaed penderfyniad i beidio â'i ddiwygio. Dylid cofnodi'r dyddiad y rhoddodd yr awdurdod lleol hysbysiad o'r penderfyniad i beidio â diwygio'r CDU.

## Canolfan adnoddau arbenigol awdurdod lleol

Statws: Diweddariadau i'r maes blaenorol 'Dosbarth arbennig a ddynodwyd gan awdurdod addysg lleol'.
Casgliadau: CYBLD

### Diben y maes data

Mae'r maes hwn yn cofnodi nifer cyfanredol y canolfannau adnoddau arbenigol gan awdurdodau lleol mewn ysgol brif ffrwd (a elwir weithiau'n gyfleusterau addysgu arbenigol). Mae wedi'i ddiweddaru ers y maes CYBLD blaenorol ar 'ddosbarthiadau arbennig' a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol. Dim ond enw'r maes sy'n newid. Gwybodaeth ar lefel ysgol yw hon ac nid yw'n cael ei chasglu am ddysgwyr unigol. Edrychwch ar nodiadau cwblhau technegol CYBLD i gael rhagor o wybodaeth.

Mae canolfannau adnoddau arbenigol awdurdodau lleol yn ddosbarthiadau y mae'r awdurdod lleol yn eu dynodi, eu hariannu ac yn pennu derbyniadau iddynt.

Peidiwch â chynnwys dosbarthiadau a sefydlwyd gan ysgol ar ei liwt ei hun na 'darpariaeth fewnol' i gefnogi dysgwyr ag ADY.

### Sut i lenwi'r maes data

Dylid llenwi'r maes hwn trwy ychwanegu nifer y canolfannau adnoddau arbenigol awdurdod lleol yn yr ysgol.

### Enghreifftiau

- Mae gan ysgol gynradd brif ffrwd 1 ganolfan adnoddau arbenigol gan awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cyfathrebu cymdeithasol ac 1 ganolfan adnoddau arbenigol gan awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a chorfforol. Dylai'r ysgol gofnodi 2 y maes hwn.

- Ni ddylid cynnwys darpariaeth yn yr ysgol na darpariaeth fewnol a drefnir ac a ariennir gan yr ysgol yn y maes hwn.

# Meysydd data: CBGY

Mae'r meysydd data canlynol sy'n ymwneud ag ADY yn y CBGY (y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion).

## Uwch dîm arweinyddiaeth

Statws: Maes data newydd
Casgliadau: CBGY

### Diben y maes data

Mae'r Cod ADY yn nodi'r disgwyliad y dylai cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CADY) naill ai fod yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth neu fod â llinell gyfathrebu glir â nhw. Yn dilyn argymhellion gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu newidiadau i gydnabod CADY yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth ym mhob lleoliad.

Mae'r maes hwn wedi'i gyflwyno yn y cyd-destun hwn i gefnogi dealltwriaeth o strwythurau arweinyddiaeth o fewn ysgolion, gan gynnwys rôl CADY.

Rhaid i'r maes hwn gael ei gasglu ar gyfer pob aelod o staff ac mae'n cofnodi a yw pob aelod yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

### Sut i lenwi'r maes data

Ar gyfer pob aelod o staff, rhowch 1 o'r ymatebion canlynol:
- 0 os nad yw'r aelod o staff yn rhan o uwch dîm arweinyddiaeth
- 1 os yw'r aelod staff yn rhan o uwch dîm arweinyddiaeth

## Rolau CADY

Mae hyn yn dod o fewn yr eitem ddata <RolauStaff>
Statws: Maes data wedi'i ddiweddaru
Casgliadau: CBGY

### Diben y maes data

Mae'r maes data hwn yn casglu data am yr holl rolau a chyfrifoldebau yr ymgymerir â hwy gan aelodau o staff gan gynnwys rôl CADY. Mae'r set godau ar gyfer rolau staff wedi'i hadolygu gyda rôl CADY newydd wedi'i hychwanegu. Diwygiwyd y disgrifiad o’r rôl CADY bresennol hefyd i ddarparu eglurder ac i wahaniaethu rhwng y rhai a chanddynt statws athro cymwysedig (SAC) a'r rhai heb y statws hwnnw, ac i sicrhau cywirdeb wrth gofnodi ac adrodd.

### Sut i lenwi'r maes data

Ar gyfer yr holl staff, nodwch 1 o'r ymatebion canlynol gan ddefnyddio'r codau rolau CADY newydd a diwygiedig:
- AQ: prif rôl – CADY gyda SAC (ar gyfer unigolion y mae hon yn brif rôl iddynt)
- SP: prif rôl – CADY heb SAC (ar gyfer unigolion y mae hon yn brif rôl iddynt)
- SC: rôl ychwanegol – CADY (fel rôl ychwanegol i'r prif gyfrifoldebau)

Dylid defnyddio'r codau rolau 'AQ' ac 'SP' (CADY gyda neu heb SAC) ynghyd â chofnodi'r cywerthedd amser llawn perthnasol pan fo rôl CADY yn brif rôl iddynt ac nad oes gan yr aelod o staff:

- unrhyw gyfrifoldebau addysgu
- rolau arweinyddiaeth eraill (fel pennaeth, dirprwy neu bennaeth cynorthwyol)
- cyfrifoldebau cynorthwyydd addysgu lefel uwch (CALU), cynorthwyydd addysgu na staff cymorth

Pan fo gan CADY unrhyw un o'r uchod, dylid eu cofnodi yn erbyn y rolau hynny gyda'r cywerthedd amser llawn perthnasol. Dylent hefyd gofnodi rôl ychwanegol 'SC CADY' (fel rôl ychwanegol i brif rôl).

Bydd trefniadau dilysu ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y casgliad i helpu ysgolion i gofnodi rolau staff yn gywir.

## Manylion cyswllt

Os oes gennych ymholiadau polisi am y meysydd data newydd a diwygiedig neu os hoffech roi adborth ar y canllawiau hyn, cysylltwch ar y cyfeiriad hwn: YGangenAnghenionDysguYchwanegol@llyw.cymru

Os yw'ch ymholiad yn ymwneud â nodiadau cwblhau technegol, cysylltwch ar y cyfeiriad hwn: IMS@llyw.cymru